



# Hysbysiad Preifatrwydd

## Cydgymdeithas Cymdeithas Sŵolegol Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut yr ydym ni, Cydgymdeithas Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru, yn bwriadu casglu a defnyddio gwybodaeth amdanoch chi.

### 1. Pwy ydym ni

Mae gan Cydgymdeithas Cymdeithas Sŵolegol Cymru gyfansoddiad fel sefydliad gydag aelodau i gefnogi Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru, sy'n masnachu fel Y Sw Fynydd Gymreig. Gerddi Flagstaff, Bae Colwyn, Conwy, LL28 5UY.

Ein rhif elusen gofrestredig yw 507970

Mae Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant ac sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 01731129

Ein rhif elusen gofrestredig yw 514108 a'n rhif TAW yw 625357242

Mae Cwmni Masnachu Cyfyngedig Cymdeithas Sŵolegol Cymru yn gwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif cwmni 02919513. Mae'n is-gwmni sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Gymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru. Mae'n gweithredu siop anrhegion o fewn tir y Sw ac mae'n rhoi ei holl elw i'r rhiant-elusen drwy Rodd Cymorth.

Cyfeirir at y ddau gwmni hyn gyda'i gilydd fel Y Sw Fynydd Gymreig ac mae cyfeiriadau at 'ni' a 'ninnau' yn cyfeirio at y ddau ohonynt ar y cyd.

Gall Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru a Chwmni Masnachu Cyfyngedig Cymdeithas Sŵolegol Cymru fod yn rheolwyr data eich data personol. Er y byddant yn gweithredu yn annibynnol bydd rhai o'u gweithgareddau yn gorgyffwrdd ac efallai y bydd data personol yn cael ei rannu yn fewnol i gefnogi gweithgareddau.

Mae Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru wedi ei lleoli yn Y Sw Fynydd Gymreig, Gerddi Flagstaff, Bae Colwyn LL28 5UY



Dan y ddeddf diogelu data ni yw 'rheolwr data' yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi ac fel rheolwr data mae gennym gyfrifoldebau cyfreithiol arbennig sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn casglu, defnyddio ac yn rhannu eich gwybodaeth bersonol. Mae'n rhaid inni eich hysbysu ynglŷn â hyn.

Bydd y Polisi Preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn rhoi ystyriaeth i unrhyw ddeddfwriaeth newydd, newidiadau mewn technoleg ac arferion gweithredol i sicrhau fod ei ddefnydd yn briodol.

## 2. Beth mae'r Polisi Preifatrwydd yn ei gwmpasu?

- Mae'n nodi'r mathau o ddata personol yr ydym yn eu casglu amdanoch chi;
- Sut a pham yr ydym yn casglu ac yn defnyddio eich data personol;
- Pa mor hir yr ydym yn cadw eich data personol;
- Y sail gyfreithiol sydd gennym dros ddefnyddio eich data personol;
- Eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol;
- Ein manylion cysylltu mewn perthynas â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

## 3. Yr wybodaeth yr ydym yn ei chasglu

Mae'r mathau o wybodaeth bersonol yr ydym yn eu casglu gennych yn cynnwys:

- Gwybodaeth yr ydych yn ei darparu i ni** - Gwybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu inni gan gynnwys eich manylion cysylltu (h.y. eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad post) a'ch manylion banc.
- Ein gohebiaeth** - Os byddwch yn cysylltu â ni gallw gadw cofnod o'r ohebiaeth honno.
- Gwybodaeth gwerthu a gwasanaethau** - Manylion unrhyw drafodion yr ydych yn eu gwneud â ni a manylion unrhyw wasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi.
- Recordiadau teledu cylch cyfyng** o'r rhai sy'n ymweld â'n hadeiladau. (Er mwyn gweld ein Polisi Teledu Cylch Cyfyng cliciwch yma). Gwybodaeth yr ydych yn ei chofnodi ar ein gwefan (Rydym yn defnyddio cwcis. Ffeiliau testun bychain yw'r rhain sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur gan wefannau arbennig yr ydych yn ymweld â hwy. Cânt eu defnyddio i wneud i'n gwefan weithio'n fwy effeithiol. (Er mwyn gweld ein Polisi Cwcis cliciwch yma).

## 4. Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Gall y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Er mwyn darparu ein gwasanaethau yn effeithiol i chi – enghreifftiau i weinyddu ein gwasanaethau, gan gynnwys ymdrin â'ch ceisiadau, cyfathrebu â chi (gan gynnwys ynglŷn ag unrhyw gynigion neu hyrwyddiadau).
- Er mwyn marchnata i chi – Os nad ydych wedi gwrthwynebu, rhoi diweddariadau a chynigion ichi am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau a chynhyrchion neu wasanaeth cwmnïau trydydd parti dethol y credwn y gallent fod o ddiddordeb ichi. (*Gweler paragraff 4, Trosglwyddiadau*



*gwybodaeth bersonol, i gael rhagor o wybodaeth*). Efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer marchnata ein gwasanaethau ein hunain i chi drwy'r post, ar y ffôn a thrwy e-bost a, lle bo'n ofynnol gan y gyfraith, byddwn yn gofyn am eich caniatâd pan fyddwn yn casglu eich data i gynnal unrhyw un o'r dulliau marchnata hyn. Byddwn yn rhoi opsiwn i ddatdanysgrifio neu i optio allan drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion yn adran 'Cysylltu â ni' yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Os, ar unrhyw adeg, na fyddwch yn dymuno inni gysylltu â chi at ddibenion marchnata, gallwch roi gwybod inni drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt hyn.

## **5. Trosglwyddiadau gwybodaeth bersonol**

Efallai y byddwn yn caniatáu i gwmnïau trydydd parti dethol ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, ar gyfer y dibenion a amlinellir yn yr adran 'Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol' (*uchod*). Gall y bydd y cwmnïau hyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu â chi. Bydd gan drydydd partiön dethol ymrwymadau i brosesu eich gwybodaeth bersonol i gydymffurfio â'r un dulliau diogelu yr ydym yn eu defnyddio.

Rydym yn cadarnhau y bydd yr holl wybodaeth bersonol a gedwir gennym amdanoch chi yn aros yn y (ac na fydd yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r) Deyrnas Unedig.

## **6. Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol?**

Os byddwch wedi dangos diddordeb yn ein cynhyrchion neu wasanaethau / os byddwn wedi casglu eich manylion cysylltu er mwyn inni roi gwybodaeth ichi am ein gwasanaethau, byddwn yn cadw eich nes byddwch yn gofyn inni roi'r gorau i anfon gwybodaeth o'r fath i chi.

Os byddwch wedi prynu cynnyrch neu wasanaeth gennym, byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod y byddwn yn darparu gwasanaeth ichi, i ddelio ag unrhyw ymholiadau, cwynion neu hawliau cyfreithiol a allai fod gennych. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a roddwyd inni gennych at ddibenion Rhodd Cymorth.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am gyhyd ag y bo angen i ni ei defnyddio yn unig. Fodd bynnag, mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chadw am gyfnodau penodedig hyd yn oed lle na fyddwch o bosibl yn defnyddio ein gwasanaethau bellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw gwybodaeth at ddibenion treth a chyfrifo.
- Canllawiau ar gyfer cadw gwybodaeth a gyhoeddir gan yr awdurdodau diogelu data perthnasol.

Mae manylion am ein Hamserlen Gadw ar gael ar gais.



## 7. Rhesymau cyfreithiol dros brosesu

Y rhesymau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol yw bod prosesu yn angenrheidiol ar gyfer:

- a. Ein diddordebau busnes cyfreithlon neu rai trydydd parti ac mae'r diddordebau hynny'n cael eu trechu gan eich diddordebau chi neu eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol mewn perthynas â diogelu eich gwybodaeth bersonol. Mae ein diddordebau busnes cyfreithlon yn cynnwys ein galluogi i ddarparu cynhyrchion, gwasanaethau a gwybodaeth i chi am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau (*marchnata*).
- b. Ein cyflawniad o gytundeb a wneir â chi. Mae hyn yn cynnwys ein bod yn rhoi cynhyrchion a gwasanaethau ichi a'n bod yn cymryd camau yn unol â'ch cais, tuag at, a chan ddisgwyl darparu cynhyrchion a gwasanaethau i chi.
- c. Ein cydymffurfriad â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol.

## 8. Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, yn gyntaf dylech gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyswllt yn adran 'Cysylltu â ni' yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Dan rai amodau arbennig, efallai fod gennych yr hawl i ofyn inni wneud y canlynol :

- a. Darparu manylion pellach ichi ar y defnydd a wnawn o'ch gwybodaeth bersonol.
- b. Darparu copi ichi o wybodaeth bersonol yr ydym wedi ei chasglu amdanoch chi.
- c. Diweddarau unrhyw anghywirdeb yn yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw.
- d. Dileu unrhyw wybodaeth bersonol nad oes gennym reswm cyfreithlon bellach dros ei defnyddio.
- e. Gwrthwynebu ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol os yw ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn achosi niwed gormodol i chi. Mewn achos o'r fath rhaid inni roi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i'r diben hwnnw.

## 9. Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech ganfod mwy am yr hysbysiad preifatrwydd hwn gallwch ysgrifennu inni yn:

Cydgymdeithas Cymdeithas Sŵolegol Cymru  
Y Sw Fynydd Gymreig  
Gerddi Flagstaff  
Bae Colwyn  
Conwy  
LL28 5UY



Efallai bod gennych hefyd yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gallwch ddarganfod sut i roi gwybod am bryder drwy eu gwefan.

Fersiwn	2018
Awdur	Swyddog Data
Cymeradwywyd gan	Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gweinyddu
Dyddiad Cymeradwyo	Gorffennaf 2018
Lleoliad Cadw	Swyddfa Weinyddu'r Sw
Dyddiad adolygiad nesaf	Gorffennaf 2020